

ROBERTS, WILLIAM ('Nefydd ' 1813 - 1872), gweinidog gyda'r Bedyddwyr, cynrychiolydd y British and Foreign School Society yn Neheudir Cymru, argraffydd, eisteddfodwr, llenor.

Enw: William Roberts

Ffugenw: Nefydd

Dyddiad geni: 1813

Dyddiad marw: 1872

Priod: Jane Roberts (née Jones)

Rhiant: Anne Roberts

Rhiant: Robert Roberts

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Bedyddwyr, cynrychiolydd y British and Foreign School Society yn Neheudir Cymru, argraffydd, eisteddfodwr, llenor.

Maes gweithgaredd: Crefydd; Addysg; Eisteddfod; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Argraffu a Chyhoeddi

Awdur: William Llewelyn Davies

Ganwyd 8 Mawrth 1813 yn Bryngoleu, plwyf Llanefydd, sir Ddinbych, mab Robert Roberts, crydd, a'i wraig Anne (gweler N.L.W. MS. 7000 am enwau rhai o hynafiaid y rhieni). Ychydig o fanteision addysg a gafodd yn ei ieuenctid. Dysgodd grefft ei dad a symudodd i Landdulas i weithio dros r o'r enw Humphrey Jones. Bedyddiwyd ef yn 1832 gan John Evans, Glanwydden, dechreuodd bregethu ym mis Ionawr 1834, ac yn haf y flwyddyn honno aeth i Lansilin i dderbyn addysg o dan [John Williams](#), awdur *Yr Oraclau Bywio!*; yr oedd [Robert Ellis](#) ('Cynddelw') yn gyd-ddisgybl ag ef.

Yn 1835 ymsefydlodd fel cenhadwr cartrefol yn yr Wyddgrug ac ar 25 Mehefin 1837 ordeiniwyd ef yn fugail eglwys y Bedyddwyr yn Stanhope Street, Lerpwl (gweler N.L.W. MS. 7127). Priododd Jane, merch [Daniel Jones](#), a oedd (1788 - 1862) yn weinidog y Bedyddwyr yn Crosshall Street, Lerpwl. Yn 1845 symudodd ' Nefydd ' i ofalu am eglwys Salem, Blaenau Gwent, sir Fynwy, lle y treuliodd weddill ei oes trwy lafurio'n galed mewn llu o gyfeiriadau.

Yr oedd yn flaenllaw gydag eisteddfodau fel cystadleuydd a beirniad. Traethodau a ysgrifennwyd ar gyfer eisteddfodau ydyw ei waith cyhoeddedig mwyaf adnabyddus, sef *Crefydd yr Oesoedd Tywyll, neu Henafiaethau Defodol, Chwareuyddol, a Choelgrefyddol: yn cynnwys y Traethawd Gwobrwyol yr Eisteddfod y Fenni ar Mari Lwyd ... ynghyd a Sylwadau ar lawer o Hen Arferion tebyg i Mari Lwyd* (Caerfyrddin, 1852). Sefydlodd ei wasg argraffu ei hunan yn y Blaenau (yn 1864), a bu'n argraffu a chyhoeddi *Y Bedyddiwr* am bedair blynedd. Bu'n golygu *Seren Gomer* am flynyddoedd, eithr ni wyddys iddo argraffu mwy nag un rhifyn o'r cylchgrawn hwnnw (N.L.W. MSS. 7077-9). Yr oedd yn flaenllaw yng nghynghorau'r Bedyddwyr. Daeth hefyd yn amlwg mewn cylchoedd addysg, yn enwedig wedi iddo gael ei ddewis (yn 1853) yn gynrychiolydd y British and Foreign School Society yn neheudir Cymru (N.L.W. MSS. 7096, 7106-7). Am 11 mlynedd bu'n brysur gyda'r gwaith o sefydlu neu arholi ysgolion a threfnu i addysgu athrawon; bu ganddo ei ' ysgol nos ' ei hun yn Blaenau am ychydig.

Trwy'r holl flynyddoedd hyn yr oedd yn casglu llyfrgell a ddaeth i gynnwys tua 6,000 o gyfrolau printiedig ac amryw

lawysgrifau gwerthfawr. Ymhlith y llawysgrifau yr oedd copi o ' Llyfr Coch Asaph ' (N.L.W. MS. 7011), casgliadau o farddoniaeth hen a diweddar (e.e. N.L.W. MSS. 7012, 7014-7), a dyddiaduron [Edmund Jones](#), Pontyp ;l (N.L.W. MSS. 7021-30). Bu hefyd yn cadw siop lyfrau am gyfnod. Heblaw'r defnyddiau ar hanes y Bedyddwyr a gasglodd ef ei hunan daeth i'w feddiant gasgliad un o haneswyr eraill y Bedyddwyr, sef [Ellis Evans](#), Cefnmawr (a oedd yn weinidog yn Llanefydd pan oedd ' Nefydd ' yn fachgen ieuanc). Ymysg cynnwys y ddwy adran y mae rhai cannoedd o lythyrau gweinidogion a lleygwyr. Aeth rhan o'r casgliad cyfunol yn eiddo [J. Spinther James](#) ('Spinther'), a'i defnyddiodd wrth ysgrifennu ei *Hanes y Bedyddwyr*; bellach y mae ' Cronfa Spinther ' (a brynwyd gan y [prifathro J. H. Davies](#)) a'r gyfran a arhosodd yng nghasgliad ' Nefydd ' wedi eu haduno yn Ll.G.C. (Am fanylion ynghylch rhai o'r llyfrau printiedig a gasglasai ' Nefydd ' gweler erthygl gan E. I. Williams yn *Journal of the Welsh Bibliographical Society*, ii, 246-50.)

Bu ' Nefydd ' farw 18 Mehefin 1872 a chladdwyd ef ym Mlaenau Gwent ar 24 Mehefin. Buasai ei wraig Jane (Jones) farw yn weddol gynnar wedi iddynt symud o Lerpwl i sir Fynwy; gweddw Jenkin Edwards oedd ei ail wraig. Trosglwyddwyd casgliad llawysgrifau a llythyrau ' Nefydd ' i'r Llyfrgell Genedlaethol yn 1930 yn ddwy adran (N.L.W. MSS. 7011-7175 a 7176-89); fe'u dilynwyd yn 1933 gan drydedd adran (N.L.W. MSS. 7768-79); ac yn 1934 daeth pedwaredd adran (N.L.W. MSS. 9637-9); am fanylion gweler *N.L.W. Handlist of MSS.* x, 231-4.

Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

At y cyfeiriadau a roddir yn yr erthygl ei hunan ychwaneger *Seren Gomer*, Mai 1895

NLW MSS 7100, 7108, a 7181

a *Trafodion Cymdeithas Hanes Bedyddwyr Cymru*, 1913-4

Delweddau

LIGC: [Nefydd \(William Roberts\)](#)

Ap Caledfryn, [William Roberts "Nefydd"](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q27967959](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

